**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1353
Ein cyf/Our ref MA/LW/02550/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

11 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Hydref ynghylch deiseb P-06-1353 Datganoli cyfrifoldebau a chyllidebau ar gyfer cefnffyrdd yng Ngogledd Cymru i Ogledd Cymru.

Gweler yr atebion isod i gwestiynau'r deisebydd.

1. A yw'r Dirprwy Weinidog wedi trafod datganoli cyfrifoldebau a chyllidebau ar gyfer Cefnffyrdd Gogledd Cymru gydag arweinwyr rhanbarthol?

Naddo. Nid yw arweinwyr rhanbarthol wedi codi hyn gyda mi ac nid wyf wedi ei godi gyda hwy, oherwydd nid yw yn bolisi Llywodraeth Cymru am y rhesymau a amlinellwyd yn fy llythyr blaenorol.

2. A yw'r Dirprwy Weinidog wedi dweud wrth Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru y bydd yn gwrthod argymhelliad o'r fath, petai'r Comisiwn yn ei wneud?

Naddo. Nid wyf wedi rhoi unrhyw arweiniad i'r Comisiwn y tu hwnt i'r cylch gorchwyl.

3. A yw gwariant ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ar gael yn ôl rhanbarth, er tryloywder?

Gweler isod dabl ar gyfer y gwariant (cyfalaf a refeniw) ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ar gyfer tymor y Senedd hon.

| | **Gogledd Cymru** | **Canolbarth Cymru** | **De Cymru** |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | £115m | £40m | £134m |
| 2021/22 | £98m | £45m | £136m |
| 2022/23 | £46m | £36m | £102m |

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

4. Mewn egwyddor, a yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r syniad y dylai pobl yng Ngogledd Cymru benderfynu ar fuddsoddiadau ar bob ffordd yng Ngogledd Cymru?

Ydy, ac mae pobl yng Ngogledd Cymru yn penderfynu ar y buddsoddi ar bob ffordd yng Ngogledd Cymru drwy ethol cynrychiolwyr i awdurdodau lleol a'r Senedd.

5. A yw Llywodraeth Cymru wedi diystyru datganoli cyfrifoldebau dros fuddsoddi cefnffyrdd i'r Cydbwyllgor Corfforaethol?

Do, am y rhesymau a nodwyd yn fy llythyr blaenorol.

6. A fyddai Llywodraeth Cymru yn cytuno i o leiaf ymgynghori â phobl Gogledd Cymru ynghylch datganoli cyfrifoldebau ar gyfer cefnffyrdd?

Nid ar hyn o bryd, oherwydd nid polisi Llywodraeth Cymru yw tynnu statws cefnffyrdd yng Ngogledd Cymru.

Yn gywir,



**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd